# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 26 Medi 2013** |
| Amser: | **13:00 – 13:30** |

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Cofnodion: AC(4)2013(13)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Sandy Mewies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Angela Burns**<br>**Rhodri Glyn Thomas** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Nicola Callow, Pennaeth Cyllid (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Lywydd** |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriad gan y Llywydd. Cytunwyd y byddai Sandy Mewies AC yn Cadeirio'r cyfarfod.

Diolchwyd yn arbennig i Syr George Reid am ei gyfraniad arbennig fel Cadeirydd Bwrdd Taliadau'r Cynulliad a dymunodd y Comisiwn y gorau iddo.

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Nid oedd buddiannau i'w datgan.

1(iii) Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar y cofnodion.

## 2 Chyllideb Ddrafft 2014-15

Roedd angen gosod cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2014-15 i'w hystyried gan y Cynulliad erbyn 1 Hydref fan bellaf. Mewn cyfarfodydd blaenorol, roedd y Comisiynwyr wedi cytuno y dylid seilio'r gyllideb ar y swm o £50.598 miliwn, fel y nodwyd yn y dogfennau cyllideb a gafodd eu cymeradwyo ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol. Bu Pwyllgor Cyllid y Cynulliad yn craffu ar y dogfennau hyn ym mis Hydref 2011 a 2012.

2014-15 fydd blwyddyn olaf cynllun buddsoddi tair blynedd y Comisiwn ar gyfer y gyllideb. Roedd cynnig cyllideb 2014-15 yn cadw at yr hyn a nodwyd yng nghyllidebau'r ddwy flynedd flaenorol. Roedd gwaith wedi'i wneud dros yr haf i adolygu'r ddogfen yn unol ag awgrymiadau'r Comisiynwyr.

Roedd Angela Burns wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid yn gofyn iddi gytuno i'r Comisiwn baratoi dim ond cyllideb ddangosol ar gyfer 2015-16 yn y Gyllideb ddrafft hon, a hynny oherwydd amserlen Adolygiad o Wariant y DU. Hefyd, teimlai'r Comisiynwyr y byddai'n briodol parhau i ganolbwyntio ar amserlen fyrrach ar gyfer y flwyddyn ddilynol (2016-17) gan y byddai hynny'n caniatáu i Gomisiwn y Pumed Cynulliad baratoi ei gynlluniau ei hun ar gyfer gwahanol gyfnodau.
Byddai Angel Burns, Claire Clancy a Nicola Callow yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad ar 3 Hydref.

Cytunwyd ar y gyllideb ddrafft a byddai'n cael ei gosod y prynhawn hwnnw. Byddai'r Comisiwn yn ystyried unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Cyllid cyn gosod y ddogfen i'r Cynulliad ei hystyried ym mis Tachwedd.

Cafodd Nicola Callow ei chanmol gan y Comisiynwyr am ei gwaith arbennig yn gysylltiedig â'r gyllideb a diolchwyd iddi hi ac Angela Burns am eu hymdrechion wrth iddynt gwblhau'r drafft.

## 3 Unrhyw Fusnes Arall

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Medi 2013**